# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc<br>*Clerk*<br>**Caroline Jones**<br>01248 602131<br>CyngorLlanllechid@ogwen.org | 26 Stryd Fawr<br>Bethesda<br>Gwynedd<br>LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Capel Bethlehem, Talybont ar nos Fercher y 13fed o Dachwedd am 1900yh.**

**1. PRESENNOL**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Rhydian Williams

**Ward Llanllechid Uchaf**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cyng. Lowri Evans.

**2. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Jên Morris
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Alun Thomas

Absennol –
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Dafydd K Jones
Y Cynghorydd Kevin Williams

**3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 10fed o Hydref 2024.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ___________________________________

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 Arwyddion Maes y Groes –** Adroddwyd Y Cynghorydd Dafydd Meurig fod aelod o staff Cyngor Gwynedd yn gyflogedig i edrych ar enwau lleoedd. Drwy hyn mae'r Cyngor wedi cytuno i osod yr arwyddion. Dim diweddariad.

**4.2 Arwyddion Cyflymder Maes y Groes –** Mr Andrew Gregson wedi bod mewn cysylltiad gyda Y Cyng Evan Jones i drafod y posibilrwydd o 'chevrons' ar y lôn. Derbynwyd diweddariad gan Mr Gregson, mae'r cynllun wedi mynd i'r Gweithle a gallwn ddisgwyl i'r darpariaeth fod yn ei le yn y 4-6 wythnos canlynol.
Adroddwyd fod damwain arall wedi bod ar y gornel. Y Clerc i gysylltu gyda Mr Andrew Gregson i bwysleisio yr angen am 'chevrons'.

**4.3 Bin Halen Bryn Derwas –** Cafwyd trafodaedd gyda Mr Ian Morgan mewn perthynas â phrynnu bin halen. Ian Morgan am yrru dyfynbris. Penderfynwyd os yw'r prîs yn rhesymol, Y Clerc i drefnu gosod y bin. Dim diweddariad ar gôst y bin.

**4.4 Safle bws Talybont –** Gwaith celf wedi ei gwblhau.

**4.5 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen a Ty'n Hendre –** Diweddariad gan Mr Steffan Jones 13/6/24, 'Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol o ddŵr yn rhedeg ar hyd ochr Lon Aberogwen a bydd ymchwiliad i ffynhonnell y dŵr yn cael ei gyflawni. Bydd unrhyw weithred yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymchwiliad. Gallwn gyflwyno sylwadau pellach ar gyfer eich cyfarfod nesaf.'

**4.6 Diffyg biniau ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 –** Y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda Mr Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaethau Stryd. Y sefyllfa bresenol yw nad yw'n glir pwy sydd gyda cyfrifoldeb dros y llwybr beicio a'r man tynnu mewn. Y Cyng. Dafydd Meurig am gysylltu gyda Mr Simpson am ddiweddariad. Dim diweddariad.
Cyngor Môn yn gyfrifol am y biniau yn eu cilfannau. Y Clerc i ailgysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

**4.7 Tai i bobl lleol –** Awgrymwyd Y Cyng. Robin Williams fod angen creu Is-Bwyllgor rhwng y tri Cyngor Cymuned i drafod materion cynllunio y bro gan gynnwys y cynllun datblygol lleol. Y bwriad fydd gwahodd cynrychiolydd o'r adran Cynllunio, Cyngor Gwynedd i un o'r cyfarfodydd.
Ymatebion gan Cynghorau Bethesda a Llandygai yn y gohebiaeth. (rhifau 9 a 10)

**4.8 Ffens bren ger pont Allt Ty'n Hendre –** Diweddariad ar y 13fed o Dachwedd gan Steffan Jones, Pennaeth adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd. 'Cadarnhaf i'r gwaith hwn barhau i fod ar ein rhaglen, sut bynnag mae ein gallu i gyflawni'r gwaith yn ddibynnol ar flaenoriaethau ac adnoddau. Gyda'r Cyngor yn wynebu toriadau mewn cyllideb mae'n anorfod bydd hyn yn cael effaith y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd. Ar hyn o bryd, nid oes modd nodi dyddiad penodol i'r gwaith'

**4.9 Cae Rhosydd** - Ffigyrau demograffeg gan ADRA wedi ei yrru ymlaen i CC Bethesda a Llandygai am ei sylwadau. Dim diweddariad.

**4.10 Lon Wig -** Adroddwyd fod terfyn cyflymder y llwybr yn 60mya, gyda cerddwyr, beicwyr a cerbydau ar yr un llwybr.
Y Clerc wedi derbyn ymateb gan yr Is-adran y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol
'Mae swyddogion Llywodraeth Cymru dal yn ystyried y mater hwn ar hyn o bryd a byddwn yn ymateb i chi cyn gynted â phosibl.' Dim diweddariad.

**4.11 Mynwent Llanllechid –** Mae'r gordyfiant wedi ei dorri yn rhan isaf o'r mynwent. Adroddwyd fod llawer o ganmoliaeth ar gyfryngau cymdeithasol.

**4.12 Torri gwair Bro Emrys –**Derbynwyd ebost gan Adam Roberts yn ymddiheuro ni fydd mewn sefyllfa i dorri'r gwair yn y stad oherwydd trafferthion gyda bin brown. Y Clerc i drio chwilio am opsiwn amgen yn y flwyddyn newydd.

**5. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.**

Dim adroddiad.

**6. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Wyn Bowen Harries | Can petrol i mower | £12.20 |
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad tuag at costau rhedeg llyfrgell cymunedol o'r 01/04/2024 30/09/2024 10% | £461.40 |
| Evan Jones | Petrol i'r mower | £29.41 |
| Wyn Bowen Harries | Petrol i mower | £15.12 |
| DE Williams | Torri Mynwent Llanllechid | £384 |
| DE Williams | Torri llwybr Mignant | £120 |
| T.Shaw's Garden & Home Maintenance | Torri llwybrau | £700 |
| Elen Williams | Gwaith celf safle bws Talybont | £100 |
| Elen Williams | Gwaith celf safle bws Talybont | £500 |

**7. Y Mynydd**

PCSO Rhys Evans o adran Troseddau Gwledig yr Heddlu yn awyddus i ymuno ac un cyfarfod. Y Clerc i'w gwahodd i gyfarfod yn y flwyddyn newydd.

Mabwysiadwyd y rheol newydd arfaethedig mewn egwyddor yng Nghyfarfod Mis Tachwedd. Y Cyng Wyn Bowen Harries i ddiwygio'r rheolau ar gyfer cytundeb terfynol.

Penderfynwyd hysbysebu am Fugail mynydd cychwyn 2025.

**8. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

**8.1 Contractwyr** - Cafwyd rhai dyfynbrisiau gan contractwyr am y gwaith. Yn aros am ddyfyniadau pellach. Y Cyng Evan Jones wedi trefnu cyfarfod *GLP fencing and Groundworks* yn y safle, nid oeddent yno ac ni roddodd unrhyw rybudd o hyn.
Y Cyng Evan Jones wedi hefyd bod mewn cysylltiad gyda cwmni o Flaenau Ffestiniog am amcan bris. Disgwyl dyfynbris cyn diwedd yr wythnos.

**8.2 Parcio** –Cyngor Gwynedd yn drafftio cynllun o'r maes parcio.

**8.3 Torri Gwair Cae Peldroed –** Y Cyng Kevin Williams i drefnu gwasanaethu'r peiriant torri gwair yn y Gwanwyn cyn y toriad cyntaf.

**9. Llyfrgell Cymunedol/ Community library**

Cafwyd dadansoddiad mwy manwl gan Y Cyng Dafydd Meurig am y biliau trydan a derbynwyd, hefyd anfonwyd cais at Octopus i adolygu'r taliadau. . Disgwylir am ymateb gan Octopus. (Rhif 9 yn y Gohebiaeth)

**10. Model rheoliadau ariannol /Approve Financial regulations Model**

Cymeradwywyd y model. (Rhif 8 yn y Gohebiaeth)

**11. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2024'

**Gohebiaeth 5. Cynrychiolydd Siân Gwenllian AS. 'Llenwi'r Bwlch: Yr achos dros hyfforddi deintyddion ym Mangor'** Y Cynghorwyr i gwblhau yn unigol.

**Gohebiaeth 6. Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2025 2026** Y Cynghorwyr i gwblhau yn unigol

**Gohebiaeth 7. Donna Watts, Partneriaeth Ogwen. Cais am lloches bws Maes Bleddyn/Cae Rhosydd.** Y Clerc i ofyn am fwy o fanylion.

**Gohebiaeth 12. Cyngor Cymuned Llanystymdwy - Cynnig i Gymeradwyo Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg.** Cafodd y cais ei ystyried, ond penderfynwyd peidio ag ymateb.

**Gohebiaeth 13. Cyngor Cymuned Botwnnog - Llythyr at ADRA am gais cynllunio tir ger Cae Capel** Y Clerc i ymateb i'r llythyr, fod Cyngor Cymuned Llanllechid yn

uniaethu gyda'ch sefyllfa Byddem yn barod i ymestyn ein cefnogaeth wrth iddynt barhau.

**12. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Cafwyd adroddiad o gyfarfod flynyddol Ynni Ogwen gan y Cyng, Rhydian Williams.

**13. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C23/0382/21/DT**
Fferm Tyddyn Isaf, Tal Y Bont, Bangor
Dymchwel adeilad allanol ar ochr yr adeilad (adfail) a chodi estyniad newydd ar yr ochr a lolfa haul ar cefn ty annedd.
**Penderfyniad** Ar y gweill

**C24/0452/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Pendderfyniad** Ar y gweill
Hoffai'r Cynghorwyr wrthod cefnogi'r cais hyd nes bod cynlluniau mewn lle i ailblannu coed.

**NP3/21/T78**
Hen Ysgubor, Ty'n-y-Maes, Nant Ffrancon
Amrywio Amodau 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) ac 8 (Maint y cerbydau danfon) ynghlwm wrth Ganiatâd Cynllunio NP3/21/T78
**Penderfyniad** Ar y gweill

**Ceisiadau Newydd**

**C24/0839/21/YA**
Tir Ofewn Parc Y Moch, Bethesda

Cais hysbysiad ymlaen llaw o ddatblygiad coedwigaeth ar gyfer codi gysodfan ar gyfer storio pren

**Penderfyniad** Ar y gweill

**14. Materion Brys/Eraill**

- Giat llwybr cyhoeddus Eglwys y Groes wedi ei hadnewyddu.
- Coeden wedi ei chlirio, a giat wedi ei hail osod ar lwybr cyhoeddus Tan Y Marian.
- Gordyfiant ar lwybr cyhoeddus wrth Ceunant wedi ei dorri.

**15. Adroddiad Llais Ogwan**

Cynhalwyd cyfarfod Mis Tachwedd yn Festri Capel Bethlehem, Talybont ar Nos Fercher 13fed o Dachwedd. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cynghorydd Lowri Evans.

Ma hi wedi bod yn fis positif iawn ym mhlwyf Llanllechid.

Mae'r Cyngor Cymuned yn falch o adrodd fod rhan isod Mynwent Llanllechid wedi ei thorri. Trefnwyd torri y gordyfiant ar ôl nifer o gwynion gan blwyfolion a theuluoedd. Mae hanes yn fynwent yn un diddorol, gyda llenyddwyr a cerddorion wedi ei claddu yno.

Newyddion da arall yw bod y goeden fawr oedd wedi syrthio ar lwybr cyhoeddus Tan y Marian wedi ei chlirio o'r diwedd. Ac hefyd giat newydd wedi ei gosod ar lwybr cyhoeddus Eglwys y Groes.

Ar ol peth amser, ma 'chevrons' rwan wedi ei leoli wrth gornel Maes y Groes. Cafwyd nifer o adroddiadau am geir yn cael damweiniau ar y gornel tyn. Fel cyngor cymuned rydym wedi brwydro i geisio gwneud y gornel hon yn fwy diogel i deithwyr.

Nadolig llawen iawn i bawb, a blwyddyn newydd dda.